


Siarter Gofalwyr Ifanc Gwynedd



Rydym yn blant a phobl ifanc sydd hefyd yn ofalwyr. Rydym yn credu y dylem fod gyda'r un hawliau a phlant a phobl ifanc eraill ym mhob rhan o'n bywydau.

Bywyd Teuluol

- Yr hawl i fwynhau bywyd teuluol
- Yr hawl i gael help a chefnogaeth ymarferol pan fydd ar y teulu angen hynny
- Yr hawl i deimlo'n ddiogel gartref
- Yr hawl i gael gwasanaethau sy'n gwerthfawrogi ein cefndiroedd, diwylliannau, crefyddau, hiliau a rhywioldeb gwahanol
- Yr hawl i fyw heb dlodi

Plentyndod a Chymdeithasu

- Yr hawl i fod yn ddiogel ac i beidio â chael ein hesgeuluso na'n cam-drin
- Yr hawl i chwarae a chael hwyl
- Yr hawl i fod yn hapus
- Yr hawl i ymlacio ac i gael ysbaid o ofalu
- Yr hawl i fod yn blant/pobl ifanc/oedolion ifanc
- Yr hawl i fynd allan ac i weld ffrindiau
- Yr hawl i gael cefnogaeth sy'n ein galluogi i gael mynediad at weithgareddau hamdden a diwylliannol

Rôl Gofalu

- Yr hawl i ddweud "na" i dasgau sy'n amhriodol neu sy'n gwneud i ni deimlo'n anghyfforddus
- Yr hawl i roi'r gorau i ofalu
- Yr hawl i bobl wrando ar ein llais ac i gael ein cynnwys wrth gynllunio gwasanaethau a allai effeithio arnom ni neu ar ein teuluoedd
- Yr hawl i deimlo'n falch o'r hyn rydym ni'n ei wneud
- Yr hawl i gael ein cynnwys yn ein cymdeithas a theimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi

Iechyd

- Yr hawl i gael archwiliad iechyd yn rheolaidd ac i gael plentyndod iach

- Yr hawl i gasglu meddyginiaeth ar gyfer y sawl rydym ni'n gofalu amdanynt
- Yr hawl i gael dewis o driniaethau, ac i'n gwahanol greddau, cefndiroedd a diwylliannau gael eu parchu
- Yr hawl i bobl wrando ar ein llais ac i gael ein cynnwys pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'n hiechyd
- Yr hawl i gael cefnogaeth a hyfforddiant i godi a thrin y bobl rydym ni'n gofalu amdanynt, ac i ddefnyddio'u hoffer.

Cefnogaeth

- Yr hawl i gael cefnogaeth gyfrinachol
- Yr hawl i gael mynediad at ffôn, i allu siarad â'r bobl rydym ni'n gofalu amdanynt pryd bynnag y bydd arnom eisiau, a hynny am ddim
- Yr hawl i gael cefnogaeth ariannol
- Yr hawl i'n hanghenion gael eu hasesu, heb i neb wneud unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â'n hamgylchiadau
- Yr hawl i gael gweithdrefnau cwyno ac eirioli rydym ni'n gallu eu deall ac sy'n gweithio
- Yr hawl i gael gwasanaeth, ac i'r gwasanaeth hwnnw fod yn briodol i'n hoedran
- Yr hawl i fod yn annibynnol

Ysgol, Addysg Bellach neu Gyflogaeth

- Yr hawl i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth
- Yr hawl i gael digon o amser i wneud ein gwaith
- Yr hawl i gael cefnogaeth briodol gan athrawon gyda'n gwaith ysgol/gwaith cartref
- Yr hawl i ddewis â phwy rydym ni am siarad am ein hamgylchiadau
- Yr hawl i gael cefnogaeth ymarferol a mwy o amser i ystyried ein hopsiynau gyrfa
- Yr hawl i hyblygrwydd a chefnogaeth ar adegau trosiannol yn ein bywydau